Arddangosfa

Ynys Môn 1939 – 1945
Straeon pobl gyffredin mewn cyfnod anghyffredin

Cynhelir arddangosfa unigryw – 'Ynys Môn 1939-1945: Straeon pobl gyffredin mewn cyfnod anghyffredin' yn Oriel Ynys Môn, Llangefni rhwng Gorffennaf 3 – Rhagfyr 24, 2010.

Am bron i 6 mlynedd rhwng 1939-1945 roedd Prydain yn ymladd y Rhyfel fwyaf a fu erioed. Cafodd pawb a phopeth ei effeithio gan yr Ail Ryfel Byd – ac er nid pob un aeth i ffwrdd i ymladd – roedd pob aelod o'r gymdeithas yn gweithio dros yr 'Ymdrech Ryfel'.

Ychydig fisoedd yn ôl gofynnodd Oriel Ynys Môn i drigolion yr ynys am eitemau oedd ganddynt hwy, aelodau o'u teulu neu ffrindiau oedd yn portreadu bywyd pobl Ynys Môn yn ystod yr Ail Ryfel Byd – cafwyd ymateb gwych.

"Mae'r arddangosfa hon yn edrych ar bob agwedd o fywyd ar yr ynys – bywyd cartref, yr ysgol, Byddin y Tir, Gwarchodlu Cartref, Wardeiniaid 'ARP' a'r ffoaduriaid a ddaeth o'r trefi mawr i'r ynys", meddai Pat West, Prif Swyddog – Amgueddfeydd, Diwylliant ac Archifau, Cyngor Sir Ynys Môn.

Ychwanegodd ***"Fuasai'r arddangosfa yma ddim wedi bod yn bosib heb gymorth a chyfraniad trigolion Ynys Môn sydd wedi rhannu eu hatgofion o'r rhyfel; lluniau a chreiriau gyda ni. Rydym yn ddiolchgar iddynt i gyd ac yn gobeithio bod yr arddangosfa yn rhoi cipolwg gywir a theimladwy o amser caled ond hefyd amser ble death cymdeithas gyfan at ei gilydd i gydweithio".***

Dywedodd Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd, Twristiaeth a Hamdden , y Cyng Bob Parry OBE, ***"Mae'r arddangosfa yma yn atgof casgliadol o fywyd trigolion Môn mewn cyfnod o ymladd ac ansicrwydd. Bydd yr holl wybodaeth a gasglwyd yn llunio rhan neilltuol o Wasanaeth Amgueddfeydd ac Archifau'r Sir fel bod cenedlaethau i ddod yn gallu dysgu am gyfraniad bwysig yr ynys yn ystod yr Ail Ryfel Byd."***

Mae'r arddangosfa hon yn un fydd yn newid ac yn tyfu trwy'r adeg wrth ychwanegu, dros y misoedd nesaf, storïau newydd, gwybodaeth ac eitemau. Ond i sicrhau hynny mae'r Oriel yn parhau gyda'i apel ANGEN EICH CYMORTH CHWI! Maent yn gofyn yn daer am eitemau, ffotograffau neu storïau am fywyd cymdeithasol, bywyd ysgol, bwyd, gwaith, ffasiwn ac yn y blaen er mwyn gwneud yr arddangosfa yn llwyddiant ac, yn fwy na dim, yn gofyn am unrhyw beth y bydd modd i chi ei gyfrannu – pethau a allai fod o gymorth i gofio'r amser arbennig hwn yn hanes Ynys Môn.

Cyswllt: Oriel Ynys Môn, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TQ
Ffôn: 01248 724444 : oriel@ynysmon.gov.uk

Oriel Ynys Môn ar agor yn ddyddiol : 10.30 – 5.00
Mynediad am ddim

Oriel Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TQ

Ffôn: 01248 724444

Yn ystod yr arddangosfa cynhelir amryw o weithgareddau:

'Make do and mend'
Gorffennaf 10 (10.00 – 4.00)
Cyfle i wneud matiau bwrdd a gorchudd tebot drwy ail ddefnyddio hen ddefnyddiau o'r cartref. – gyda Gwenfai Rees Griffiths

Ar gyfer dechreuwyr a rhai profiadol.
Injan wnïo ddim yn angenrheidiol.
Mae rhestr o'r anghenion sydd ei angen ar gyfer y gweithdy ar gael o Oriel Ynys Môn.
Archebu lle yn angenrheidiol
Côst £15 (yn cynnwys tê a choffi)

Dawnsfeydd yr Ail Ryfel Byd
Camwch yn ôl mewn amser - gwisgwch eich 'sgidiau dawnsio a dysgwch rai o ddawnsfeydd y cyfnod – gyda Ffion Williams

Archebu lle yn angenrheidiol
Côst £10 y sesiwn (yn cynnwys tê a choffi)

Gorffennaf 26 (9.00 – 12.00)
Dysgwch symudiadau gosgeiddig a chain y Waltz

Gorffennaf 29 **(**9.00 – 12.00)
Dysgwch symudiadau llon y Lindy Hop

Awst 16 **(**9.00 – 12.00)
Dysgwch symudiadau siglog a sydyn y Charleston
Awst 18 **(**9.00 – 12.00)
Dysgwch symudiadau llaw yr Hand Jive ynghyd â symudiadau ysgafnfryd y Cha Cha

Cyngerdd a Dawns Fawreddog – Ynys Môn 1939-1945
Tachwedd 20 (7.30 yh)
Cyfle i wrando a dawnsio i ffefrynnau yr Ail Ryfel Byd – 'We'll Meet Again; It's a Long Way to Tipperrary; White Cliffs of Dover' a llwer mwy yng nghwmni Owen Webb, Ros Evans, Annette Bryn Parri a Dr Jazz.

Tocynnau £25 (yn cynnwys Bwffe Dathliadol)
Tocynnau ar gael yn Oriel Ynys Môn